

David Rees AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

11 Mehefin 2015

Annwyl David,

### **Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Fel Cadeirydd y Pwyllgor sy'n craffu ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1, rwyf yn gobeithio y bydd y wybodaeth a ddarperir yn y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth ichi drafod y Bil.

Yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2015, bu'r Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") yn trafod goblygiadau ariannol ehangach y Bil a chlywodd dystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol, Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog"). Mae copi llawn o'r trawsgrifiad ar gael yma:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s40229/13%20May%202015%20-%20Draft.pdf>

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

Cyn y sesiwn dystiolaeth, rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol mewn tri maes, gan gynnwys cost gyffredinol y Bil (mae'r llythyr wedi'i gynnwys yn Atodiad A). Roedd y rhain yn cynnwys y materion a ganlyn:

- Cofrestru deul;
- Diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol; a
- Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dywedodd y Gweinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol pan gaiff ei ddiwygio ar ôl trafodion Cyfnod 2 (yn amodol ar y Bil yn symud ymlaen i'r cyfnod hwn).

Bu'r Pwyllgor yn holi'r Gweinidog am y pryderon a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y posibilrwydd mai'r pwysau presennol o ran cyllid ac



adnoddau yw'r brif rwystr i weithredu'r Bil. Cadarnhaodd y Gweinidog mai cost y system bresennol o reoleiddio ac arolygu yw £34 miliwn y flwyddyn ac mai cost y system newydd fyddai £1.5 miliwn ychwanegol y flwyddyn (neu 4% yn fwy). Felly, nid oedd y Gweinidog yn credu bod y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil yn ormodol. Os bydd y sefyllfa ariannol yn newid, dywedodd y byddai'n rhaid iddo bwysu a mesur a allai fforddio gweithredu rhai rhannau o'r Bil yn gynt neu a fyddai'n rhaid iddo ymestyn yr amserlen hyd nes ei fod yn gallu fforddio gwneud hynny.

Mewn llythyr at eich Pwyllgor, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ("yr Archwilydd Cyffredinol") fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o bosibl yn gamarweiniol yn y ffordd y mae'n dangos buddiannau ariannol. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog ei fod yn ffordd gwbl safonol o wneud pethau. Fodd bynnag, cytunodd i edrych ar sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ac, os oedd dull gwell, y byddai'n ystyried defnyddio'r dull hwn yn y dyfodol.

Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd at ba mor briodol yw cyfnod o bum mlynedd i ddadansoddi'r costau. Credai'r Gweinidog fod yr amserlen hon yn rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch y costau hynny, a theimlai na fyddai ystyried lefel y costau dros gyfnod yn hwy na phum mlynedd o bosibl yn ddibynadwy iawn.

Ar y mater o is-ddeddfwriaeth, nododd y Pwyllgor fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi dwy ddarpariaeth a fyddai'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth nad oedd pris wedi'i bennu ar ei chyfer (diogelu teitl a gorchmynion gwahardd). Cadarnhaodd y Gweinidog fod y Bil wedi'i ddefnyddio fel cyfle i gynnwys pwerau is-ddeddfwriaeth y gellid eu defnyddio yn y dyfodol ond nad oedd yn bwriadu eu defnyddio ar hyn o bryd. Lle y mae'n bwriadu symud ymlaen â pholisi, dywedodd y Gweinidog ei fod wedi darparu adroddiad manwl o beth fyddai cost is-ddeddfwriaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod ail grŵp o bwerau is-ddeddfwriaeth yn y Bil lle nad oedd yn fwriad ganddo i symud ymlaen â'r pethau hynny ar unwaith, ac felly nid oedd y costau hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Roedd y Gweinidog yn credu bod y costau trosiannol ar gyfer Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("AGGCC") yn gadarn. Dywedodd fod tair prif elfen i'r costau trosiannol, gan gynnwys symud at fodel gwasanaeth o gofrestru, hyfforddiant a gwybodaeth ar draws y sector cyfan a newidiadau o ran TG. Dywedodd fod y £2.1 miliwn a ddyrannwyd mor fanwl gywir ag sy'n bosibl ar hyn o bryd, ond cadarnhaodd y byddai'n parhau i gynnal trafodaethau ag AGGCC ac y byddai modd mireinio costau wrth i'r Bil newid ar ei daith drwy broses graffu'r Cynulliad.

O ran costau trosiannol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyngor Gofal Cymru ar hyn o bryd) o £100,000, cadarnhaodd y Gweinidog fod y costau hyn wedi'u seilio ar enghraifft ddiweddar yn y sector addysg. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad mwy manwl o'r gost o £100,000, ond dywedodd y byddai o bosibl yn gwneud hynny ychydig yn ddiweddarach yn y broses. Dywedodd y Gweinidog, os byddai costau trosiannol yn codi, fod llinell yn y gyllideb ar gael iddo o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y byddai'n



gallu manteisio arni, a dywedodd na fyddai'n afresymol defnyddio ychydig o'r cyllid hwnnw i weithredu Deddf berthnasol.

### ***Ein barn ni***

Mae'r Pwyllgor yn nodi datganiad y Gweinidog y byddai'r system newydd yn costio £1.5 miliwn ychwanegol y flwyddyn, o'i chymharu â'r system bresennol. Mae'r Pwyllgor yn falch bod y Gweinidog yn cael trafodaethau parhaus â'r AGGCC a Chyngor Gofal Cymru (a fydd yn dod yn Gofal Cymdeithasol Cymru) a'i fod wedi ymrwymo i ystyried diweddarau goblygiadau ariannol y Bil wrth i'r trafodaethau hyn a'r broses graffu fynd yn eu blaen.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod seilio'r costau ar gyfnod o bum mlynedd yn rhoi sicrwydd rhesymol ac yn cytuno â'r Gweinidog na fyddai amserlen hwy yn arwain at gostau dibynadwy. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y cyfnod o bum mlynedd yn cydymffurfio â Biliau eraill y Llywodraeth.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod llinell yn y gyllideb ar gael i'r Gweinidog o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac y byddai'n gallu manteisio arni pe bai costau trosiannol yn cynyddu.

Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch y ddwy ddarpariaeth a fyddai'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth nad oes pris wedi'i bennu ar ei chyfer, o ran diogelu teitl a gorchmynion gwahardd. Cred y Pwyllgor y dylai'r holl gostau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth gael eu nodi, pa un a fwriedir defnyddio pwerau neu beidio.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor ac rwy'n edrych ymlaen at ddadl Cyfnod 1 ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir



**Jocelyn Davies AC**  
**Cadeirydd y Pwyllgor**

**CC: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**



Mark Drakeford AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/MD/0460/15

Jocelyn Davies AM  
Chair  
The Finance Committee

[Jocelyn.davies@assembly.wales](mailto:Jocelyn.davies@assembly.wales)

*Dear Jocelyn,*

5 May 2015

**Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill – Finance Committee**

Thank you for inviting me to attend the Finance Committee on 13 May 2015 to discuss the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill.

The Regulatory Impact Assessment which accompanies the Bill sets out options for twenty policy areas addressed by the Bill. For each of the options, the costs and benefits to relevant stakeholder groups are discussed. My officials worked with stakeholders to ensure the estimates and their underlying assumptions are evidence-based.

My officials continue to keep the Regulatory Impact Assessment under review and have drawn my attention to three areas in which updating will be required. The enclosed appendix provides the details of these together with their impact on the overall cost of the Bill. These changes will be incorporated in the Regulatory Impact Assessment when it is revised after Stage 2 proceedings.

I trust this information will assist Members in their scrutiny of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. If you or any Members require further information, please do not hesitate to contact me.

*Best wishes,*

*Mark*

Mark Drakeford AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

## Amendments made to the RIA

### 1. Dual registration

Managers are currently required to register with both the workforce regulator and the service regulator. Option one sets out the costs for maintaining the existing system of dual registration (see table 27, page 228) and option two sets out the preferred option of requiring managers to only register with the workforce regulator (see table 28, page 230).

Table 27 will be updated to reflect more accurately the estimated costs with the existing system of dual registration. The cost in 2016/17 has been increased to £324,900. This cost includes an additional £6,125 which has been moved from 2017/18 to more accurately reflect the cost of the existing system in 2016/17 (see table 27 below). There is no cost to years 2018-19 to 2020-21.

**Table 27: revised summary of costs associated with maintaining dual registration**

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Service regulator					
Workforce regulator	143,000	143,000	143,000	143,000	143,000
Managers with outstanding service regulator applications	12,500	0	0	0	0
Managers making fresh applications to the service regulator	63,800	63,800	63,800	63,800	63,800
Managers making fresh applications to the workforce regulator	33,100	33,100	33,100	33,100	33,100
Ongoing costs for managers to remain registered with the workforce regulator	72,500	72,500	72,500	72,500	72,500
<b>Total cost</b>	<b>324,900</b>	<b>312,400</b>	<b>312,400</b>	<b>312,400</b>	<b>312,400</b>

Table 28 will be updated to reflect more accurately the estimated costs for managers, as set out in the regulatory impact assessment, where they are required to register only with the workforce regulator. The cost for managers for 2016-17 has increased by £6,425 from £175,475 to £181,900 and the cost to managers has been increased from by £41,800 from £63,800 per year to £105,600 per each of the years 2017-18 to 2020-21 (see table 28 below).

**Table 28: revised summary of estimated costs and benefits associated with removing dual registration**

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Service regulator					
Workforce regulator					
Transition	1,800				
Ongoing	143,000	165,500	165,500	165,500	165,500
Managers	181,900	105,600	105,600	105,600	105,600
<b>Total cost</b>	<b>326,700</b>	<b>271,100</b>	<b>271,100</b>	<b>271,100</b>	<b>271,100</b>

## 2. Due diligence of key providers

Option one sets out potential costs associated with the disorderly closure of care providers. Paragraphs 7.462 to 7.467 set out the costs to service users, where a large care home closes in a disorderly manner. The total cost to services users is estimated to be £923,000. An assumption has been made that only one large provider is likely to exit the market in a disorderly manner every 10 years. Thus, the cost to service users is £92,300 per annum.

Option two sets out the costs and benefits of introducing due diligence of key providers. Undertaking due diligence aims to prevent disorderly closures of care providers and, in turn, to prevent the associated costs being incurred. For service users, the introduction of due diligence should reduce the risk of incurring costs of £92,300 to zero. Thus, there is no cost to service users, resulting in a saving of £92,300 per annum. Rather than a stated cost of zero to service users, tables 42 and 43 (see pages 279-287 of the regulatory impact assessment) have a stated cost of -£92,300. This has resulted in the potential savings over the five year period 2016/17 to 2020/21 being stated as £738,400 rather than the intended estimate of £369,200.

## 3. Social Care Wales

Table 39 sets out the current grant funding of £19,458,575 for workforce regulation and improvement, research and service improvement. This grant funding will be used to fund Social Care Wales, as set out in table 40.

This information is not presented accurately in the summary tables 42 and 43, which state the cost to public finance is £19,147,575. This figure will be amended to read £19,458,575. Whilst this has an impact on the total ongoing cost and the total cost of implementing Social Care Wales, it has no impact on the additional cost of implementing the preferred options set out in the regulatory impact assessment.

Summary tables 42 and 43 will be updated to take account of the changes outlined above. The amended totals are set out in the table below.

## Total costs

	2016/17		2017/18	2018/19	2019/20	2020/21			
	Do nothing		Introduce preferred option						
	Ongoing	Total 5 years - do nothing	Transition	Ongoing	Ongoing	Ongoing	Ongoing	Total 5 years - preferred option	Cost difference
<b>Original figures</b>	33,981,085	169,905,425	3,357,412	35,382,513	35,376,388	35,376,388	35,376,388	178,850,174	8,944,749
<b>Amended figures</b>	34,298,510	171,492,550	3,357,412	35,821,488	35,821,488	35,821,488	35,821,488	180,941,874	9,449,324